



## OEDDECH CHI'N GWYBOD?

- Mae gwinoedd Cymru ymhlith goreuon y byd – cafodd gwin 2008 Ancre Hill Estates ei ddewis yn win pefriol gorau'r byd yng Nghystaddeuaeth Ryngwladol Bollicine del Mondo yn yr Eidal yn 2012. Dim ond dwy winllan fiodynamig sydd ym Mhrydain ac mae Ancre Hill Estates yn un ohonynt.
- Yn ôl pob sôn, cyflwynwyd gwin i Brydain gan y Rhufeiniaid a mynachod Ffrengig, ond yr Arglwydd Bute, diwydiannwr cyfoethog a brwdfrydig o'r Alban, sy'n cael y clod am blannu gwinllan fasnachol gyntaf Cymru yng Nghastell Coch, i'r gogledd o Gaerdydd yn 1875.
- Mae gwinlannoedd Cymru'n lleoedd da i gael mynd yn agos at rywogaethau prin ac anarferol – cewch gerdded gyda lamaod yng



**Gwinoedd Cymreig sydd wedi Ennill Nifer o Wobrau**  
**Gwerthu Gwin wrth Ddrws y Seler**



## Wine Trail Wales Taith Gwin Cymru

**Tastings**  
**World Class Wines**  
**Vineyard Tours**  
**Accommodation & Restaurants**



## Gwinlannoedd gorau Cymru

Mae gwinlannoedd gorau Cymru wedi dod at ei gilydd i greu Cymdeithas Gwinlannoedd Cymru er mwyn hyrwyddo'r sector tyfu gwin yng Nghymru.

Mae Cymru'n prysur ddatblygu enw da am winoedd o ansawdd rhagorol. Mae cynhyrchwyr gwin o Ynys Môn i Sir Benfro, a draw i Sir Fynwy, yn ennill rhai o'r prif wobrau cenedlaethol a rhyngwladol am eu gwaith caled, ac mae hyn wedi cyrraedd y penawdau a rhoi Cymru ar fap gwinoedd y byd.

Mae gwinlannoedd Cymru'n cynhyrchu tua 100,000 o boteli o win y flwyddyn ac mae llawer yn croesawu ymwelwyr gan gynnal teithiau tywys a sesiynau blasu fel rhan o Daith Gwin Cymru. Mae'n ffordd wych i gynhyrchwyr gwin rannu eu brwdfrydedd, ac i ymwelwyr ddysgu am y broses o wneud gwin. Ymwelwch â gwinllan a blaswch y safon.



*Os oes deng mlynedd neu fwy ers y tro diwethaf i chi brofti gwin o Gymru, mae'n werth i chi droi rhai o'r gwinoedd o'r radd flaenaf sydd gennym erbyn hyn.*

**Deiniol ap Dafydd,**  
 BLAS AR FWYD, ARBENIGWR A MASNACHWR GWIN  
 Archebwch ar-lein yn [www.blasarfwyd.com](http://www.blasarfwyd.com)

### WELSH RAREBITS® Hotels of Distinction

Mae Welsh Rarebits yn gasgliad unigryw o 44 o'r lleoedd gorau i aros yng Nghymru - gwstai clasurol a chyfoes, plastai moethus, tafarndai hanesyddol cartrefol a thai bwyta o safon ag ystafelloedd aros. Mae Cymdeithas Gwinlannoedd Cymru a Welsh Rarebits wedi dod at ei gilydd i gynnal teithiau a pheccynnau llety amrywiol mewn lleoliadau hardd ledled Cymru.

**I gael rhagor o fanylion cysylltwch â:**  
 +44 (0)1570 470785  
[www.rarebits.co.uk](http://www.rarebits.co.uk)  
[tours@rarebits.co.uk](mailto:tours@rarebits.co.uk)



Castell Coch.

Ngwinllan Glynllanor ym Mro Morgannwg neu fwydo pâr o farcutiaid yng Ngwinllan Jabajak yn Sir Gaerfyrddin

- Mae gwinoedd o Winllan Glynllanor wedi cael eu gweini yng ngwleddoedd y Gwladwriaethau Ewropeaidd ac maent yn cael eu gweini yn nhŷ bwyta Tŷ'r Arglwyddi. Cafodd Tintern Parva ei weini yn yr Uwchgynhadledd Ewropeaidd pan oedd Prydain yn Llywyddu.
- Mae dros 20 o wahanol fathau o rawnwinn yn cael eu tyfu mewn gwinlannoedd ledled Cymru.

Aelodau o Gymdeithas Gwinlannoedd Cymru.



WINES OF EXCEPTIONAL QUALITY  
 GWINOEDD O SAFON EITHRIADOL  
[www.winetrailwales.co.uk](http://www.winetrailwales.co.uk)



FOOD & DRINK WALES

